

385 – Rhyddiaith dan 25 oed
Stori Fer
Beirniad – Elen Wyn

1af – 385/3 MAI

2il – 385/6 SION

3ydd – 385/ 8 ROBIN GOCH

Wyth darn a ddaeth i law, ac mi hoffwn ganmol y cystadleuwyr am fynd ati i ysgrifennu, mae cryn addewid yn y deunydd. ‘Gweld yn glir’ oedd y testun a chefais flas ar y darllen, er bod y mwyafrif ohonyn nhw yn delio â phynciau digon digalon am berthnasau wedi chwerwi, teuluoedd trist a marwolaeth.

MAI oedd llenor mwyaf cynnil y gystadleuaeth. Dyma storiwr sy’n dallt pwysigrwydd sefydlu awyrgylch a llunio cymeriadau. Stori am wraig yn dychwelyd i fro ei mebyd wedi marwolaeth ei thad oedd yn weinidog calon galed. Mae gan MAI ddawn storiol yn bendant, a llwyddai i ddarlunio caethiwed ei magwraeth yn arbennig. Mae yna ffraethineb, a diweddglo gobeithiol a chymeriadau sy’n ennyn ymateb.

SION ydi awdur mwyaf gwreiddiol y gystadleuaeth, yn dilyn hanes merch ifanc yn chwilio am waith. Dim byd anghyffredin am hynny meddech chi, ond cawn wybod yn fuan iawn mai chwilio am waith yn y nefoedd y mae hi! Mae yna ryw hiwmor tywyll yn perthyn i’r gwaith, oedd yn chwa o awyr iach mewn cystadleuaeth lle yr oedd gymaint o’r ymgeiswyr yn canolbwyntio ar agweddau digalon. Roedd y tro yng nghynffon y stori yn dda iawn, ac mi lwyddodd SION i godi ias na chefais gan y gweddill.

Roedd dyfarnu’r drydedd wobr braidd yn anodd: ‘Roedd hi rhwng ROBIN GOCH, GWYRDD, a 385/5. Ar ôl ystyried, ROBIN GOCH sydd piau hi, a hynny am stori gwraig briod yn cyrraedd pen ei thennyn. Mae’r awdur yn gallu creu naws yn sicr, a’r diweddglo yn ddirdynol.

Braint oedd cael beirniadu'r gystadleuaeth yma, a llongyfarchiadau i chi gyd am roi tro arni.